Estyn
Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Ewloe Green
**Hen Ffordd Yr Wyddgrug**
**Ewlo**
**Glannau Dyfrdwy**
**Sir y Fflint**
**CH5 3AU**

**Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2012**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Iechyd ar Waith
Cyrraedd y Nod
The Corporate Standard
Health at Work

Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd
Green Dragon Environmental Standard

Buddsoddwyr Mewn Pobl | Aur

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 05/09/2012**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Ewloe Green wedi'i lleoli ym mhentref Ewlo ger Queensferry yn Sir y Fflint. Mae'n gwasanaethu'r ardal leol a phentref Penarlâg.

Daw mwyafrif y disgyblion o gefndiroedd breintiedig. Fodd bynnag, mae gwahaniaethau eang yn amgylchiadau economaidd gymdeithasol disgyblion. Mae 4% o ddisgyblion yn cael prydau ysgol am ddim ar hyn o bryd. Mae hwn yn ffigur isel o gymharu ag ysgolion eraill yn lleol ac yn genedlaethol.

Mae'r ysgol yn darparu ar gyfer disgyblion rhwng tair ac un ar ddeg oed. Mae 389 o ddisgyblion cyfwerth ag amser llawn ar y gofrestr rhwng pedair ac un ar ddeg oed a 49 o ddisgyblion sy'n dair oed sy'n mynychu'r feithrinfa yn rhan-amser.

Nid yw'r un o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref. Mae Saesneg yn iaith ychwanegol i ddau ddeg pump o ddisgyblion. Mae bron pob un o'r disgyblion o gefndiroedd gwyn a Phrydeinig.

Nodwyd bod gan saith y cant o ddisgyblion rhyw fath o anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r ganran hon yn is na'r cyfartaleddau lleol a chenedlaethol. Mae gan ddau ddisgybl ddatganiadau o anghenion addysgol arbennig. Ni chafodd yr un disgybl ei wahardd yn y flwyddyn ysgol flaenorol. Nid oes yr un disgybl yn 'derbyn gofal' gan yr awdurdod lleol.

Yn ystod yr arolygiad, roedd dau aelod o staff yn absennol. Cafwyd athrawon llanw yn eu lle.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Ewloe Green yn 2011-2012 yn golygu mai'r gyllideb yw £2,770 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion cynradd yn Sir y Fflint yw £10,075 a'r isafswm yw £2,616. Mae Ysgol Gynradd Ewloe Green yn safle 74 o'r 76 o ysgolion cynradd yn Sir y Fflint o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae'r ysgol yn dda oherwydd:

- cyrhaeddiad da disgyblion yn saith ac yn un ar ddeg oed mewn asesiadau athrawon cenedlaethol;
- ansawdd da'r addysgu;
- bod safonau mewn llythrennedd a rhifedd yn uchel ar draws yr ysgol;
- y cynnydd da a wna disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen;
- y profiadau dysgu rhagorol a ddarperir; ac
- ansawdd da iawn y gofal a'r cymorth a roddir i ddisgyblion.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- y duedd gadarnhaol o wella mewn asesiadau athrawon cenedlaethol;
- yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth effeithiol gan y pennaeth a'r uwch dîm rheoli;
- bod y corff llywodraethol yn cymryd rhan yn dda iawn, ac yn cyflawni ei ddyletswyddau'n dda; a'r
- ethos cadarnhaol ymhlith y staff a'r disgyblion.

## Argymhellion

Er mwyn gwella ymhellach, mae angen i Ysgol Gynradd Ewloe Green:

A1 ymestyn medrau'r holl ddisgyblion ymhellach i asesu eu dysgu eu hunain a dysgu'r disgyblion eraill;

A2 sicrhau bod y ffordd y caiff gwaith disgyblion ei farcio'n adeiladol yn gyson ar draws yr ysgol; a

A3 gwella perfformiad cymharol bechgyn ymhellach yng nghyfnod allweddol 2.

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Bydd yr ysgol yn cael ei gwahodd i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig i Estyn yn disgrifio'r arfer ragorol a nodwyd yn yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu eu medrau yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwrando'n dda ac yn siarad yn hyderus iawn mewn ystod eang o sefyllfaoedd. Mae llawer ohonynt yn darllen yn gymwys am eu hoedran ac yn trafod yr hyn y maent wedi'i ddarllen yn wybodus. Mae mwyafrif y disgyblion yn ysgrifennu ar draws ystod o genres at wahanol ddibenion a chynulleidfaoedd ar draws y cwricwlwm.

Ar draws yr ysgol, mae bron pob un o'r disgyblion yn gweithio gyda'i gilydd yn dda iawn mewn parau a grwpiau. Mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso medrau meddwl a medrau dysgu annibynnol yn gadarn mewn ystod o gyd-destunau. Mae disgyblion mwy abl a dawnus yn cyflawni eu safonau disgwyliedig.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn dechrau'r ysgol gyda safonau mewn medrau sylfaenol sy'n cyd-fynd â, neu'n uwch na'r rhai a ddisgwylir fel arfer am eu hoedran. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, yn cynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd da ac yn adeiladu'n llwyddiannus ar eu dysgu blaenorol.

Mae perfformiad disgyblion ar y lefelau disgwyliedig ar gyfer disgyblion saith ac un ar ddeg oed yn agos at y rhan fwyaf o'r teulu o ysgolion ac uwchlaw'r rhan fwyaf o ysgolion yr ystyrir eu bod yn eithaf tebyg. Mae cyrhaeddiad ar y lefelau uwch yn agos at gyfartaledd y teulu ac yn uwch na chyrhaeddiad ysgolion tebyg.

Mae cyrhaeddiad bechgyn yn un ar ddeg oed wedi bod islaw cyrhaeddiad merched yn y gorffennol. Yn ddiweddar, mae'r tanberfformio cymharol hwn gan fechgyn wedi gwella.

Mae cynnydd disgyblion o ran caffael medrau Cymraeg yn dda. Mae disgyblion yn datblygu eu medrau siarad yn systematig ar draws yr ysgol. Maent yn defnyddio dilyniannau cynyddol gymhleth o gwestiynau ac atebion ac yn perfformio deialogau syml. Mae disgyblion yn B6 yn darllen gyda lefel uchel o rugler a mynegiant. Mae medrau ysgrifennu'n datblygu'n dda o B2 i B6. Mae gan bob disgybl agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu Cymraeg. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae disgyblion wedi dysgu am Feddgelert, tra bod disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 wedi gwella eu dealltwriaeth trwy ddysgu am Ynys Sgomer a'r Esgob William Morgan. Maent hefyd wedi elwa trwy edrych ar y pethau tebyg a'r gwahaniaethau rhwng St. Lucia a Chymru.

**Lles: Da**

Rhoddir gofal da i ddisgyblion mewn amgylchedd dysgu meithringar. Dywed bron pob un o'r disgyblion eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Maent yn dangos gwerthfawrogiad clir o bwysigrwydd ffyrdd iach o fyw a chadw'n ddiogel. Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda. Prin iawn yw'r bwlio ac mae staff yn delio'n brydlon ag achosion achlysurol.

Ar draws yr ysgol, mae agweddau ac ymddygiad pob un o'r disgyblion yn gryfder sylweddol. Mae pob un o'r disgyblion yn dangos lefelau uchel o ofal a phryder am ei gilydd, ac maent yn gwrtais ac yn ystyriol at ei gilydd ac at oedolion. Maent yn ymddwyn yn dda iawn mewn dosbarthiadau ac mewn gwasanaethau. Dangosant agweddau aeddfed tuag at eu gwaith, eu hathrawon ac at ei gilydd o oedran cynnar.

Mae disgyblion ar y cyngor ysgol yn cynrychioli eu cymheiriaid yn dda. Caiff aelodau o'r cyngor ysgol eu cynnwys yn weithredol yn y penderfyniadau a wneir ynglŷn â'r hyn sy'n digwydd yn yr ysgol, er enghraifft wrth helpu i gytuno ar yr hyn yr hoffent ei weld mewn athro newydd.

Mae cysylltiadau sylweddol gyda'r ysgol uwchradd leol sy'n cynorthwyo'r trosglwyddo'n fawr i ddisgyblion sy'n symud i'r cyfnod nesaf yn eu haddysg.

Mae gan bob disgybl ymwybyddiaeth dda iawn o faterion iechyd a diogelwch. Mae'r gyfradd presenoldeb, sef 94.78%, yn agos at y rhan fwyaf o ysgolion yn y teulu. Mae hyn wedi bod yn gyson yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae prydlondeb disgyblion yn dda a nifer yr absenoldebau anawdurdodedig yn isel iawn.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Rhagorol**

Mae'r ysgol yn darparu ystod ragorol o brofiadau dysgu sydd wedi cael eu cynllunio'n systematig iawn. O ganlyniad, mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys iawn ar gyfer pob disgybl. Darperir cyfleoedd dychmygus iawn yn rheolaidd er mwyn i bob un o'r disgyblion ddatblygu eu medrau mewn llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu ar draws y cwricwlwm. Mae'r ysgol yn cymryd rhan mewn prosiect cenedlaethol a gydag ysgolion eraill i rannu'r cryfderau hyn. Caiff y cwricwlwm ei gyfoethogi ymhellach gan amrywiaeth eang iawn o glybiau, gweithgareddau allgyrsiol ac ymweliadau o ansawdd da iawn â'r ardal leol ac yn llawer pellach.

Mae'r ysgol yn cynllunio darpariaeth ar gyfer y dimensiwn Cymreig yn dda. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion. Caiff yr iaith Gymraeg ei hyrwyddo'n effeithiol trwy waith pwnc. O ganlyniad, mae gan ddisgyblion gronfa dda o eirfa berthnasol i gysylltu â meysydd eraill o'r cwricwlwm. Rhoddir cyfleoedd da i ddisgyblion ddysgu am eu hardal a'u hetifeddiaeth Gymreig.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo ymwybyddiaeth am gynaliadwyedd ac arbed ynni mewn modd effeithiol a dychmygus iawn, er enghraifft i hyrwyddo ailgylchu a chadwraeth. Mae llawer o ddigwyddiadau codi arian wedi'u cysylltu â materion byd-eang. Mae gan yr ysgol bartneriaethau datblygedig iawn gydag ysgolion, sefydliadau ac unigolion eraill mewn sawl gwlad. Mae hyn yn helpu disgyblion i wneud cynnydd rhagorol i ddeall eu rolau fel dinasyddion y byd. Mae'r ddarpariaeth gyfoethog yn sicrhau bod cymuned yr ysgol wedi ymrwymo'n llwyr i ofalu am eu hardaloedd bywyd gwyllt, yr ardd ac anifeiliaid ac adar y maent yn hoff iawn ohonynt.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu'n dda. Mae athrawon yn y Cyfnod Sylfaen yn trefnu profiadau dysgu'n effeithiol ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o bob disgybl. Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn cynllunio'n drylwyr i fodloni anghenion pob disgybl, ac mae ganddynt wybodaeth bynciol dda. Mae'r gwersi'n mynd yn eu blaen gyda synnwyr clir o ddiben, ac fe gaiff pob un o'r disgyblion eu hannog yn llwyddiannus i weithio'n galed a mwynhau eu dysgu.

Mae'r berthynas rhwng athrawon a disgyblion bob amser yn gadarnhaol iawn. Yn gyffredinol, caiff disgyblion eu hannog i fynegi eu syniadau eu hunain a meddwl yn feirniadol ynghylch sut y gallant wella. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn cymhwyso'r strategaethau hyn yn gyson ar draws yr ysgol.

Mae'r ysgol wedi gwneud trefniadau eang a chadarn i nodi, cefnogi a monitro disgyblion ar draws yr ysgol. Defnyddir y rhain yn dda iawn i nodi cynnydd unigol a dangos ble mae angen cymorth ychwanegol. Mae trefniadau da i ddisgyblion asesu eu gwaith eu hunain a gwaith disgyblion eraill. Defnyddir y rhain mewn modd adeiladol iawn mewn llawer o ddosbarthiadau i annog pob disgybl i fod yn ymwybodol iawn o sut y dylent wella.

Mae marcio ysgrifenedig yr athrawon yn ddigon manwl a defnyddiol bron ym mhob dosbarth. Yn achlysurol, nid yw sylwadau'n ddigon manwl i nodi ffyrdd ymlaen. Mae gweithdrefnau ac arferion asesu ar gyfer y disgyblion hynny sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn rhagorol ac yn cyfrannu'n sylweddol at y cynnydd a wna'r disgyblion hyn, sy'n aml yn eithriadol o dda.

Caiff rhieni a gofalwyr wybodaeth dda am gynnydd eu plant. Mae adroddiadau blynyddol yn fanwl ac yn rhoi darlun da a chyflawn o gyflawniadau pob disgybl.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol**

Mae ystod ragorol ac amrywiol o gymorth arbenigol sy'n targedu anghenion unigol yn yr ysgol. Ceir cynlluniau unigol sydd wedi'u llunio'n dda iawn sy'n cwmpasu anawsterau dysgu, synhwyraidd ac ymddygiadol. Mae targedau clir sy'n cael eu harfarnu a'u diweddaru'n rheolaidd. Mae staff arbenigol yn yr ysgol yn cynnwys cwnselwr hyfforddedig, sy'n hynod effeithiol. Rhoddir gwybodaeth lawn i rieni, ac fe gânt eu cynnwys ym mhob cyfnod o'r ddarpariaeth. Mae'r cyswllt rhwng yr ysgol a'r gwasanaethau allanol arbenigol yn eang.

Mae'r ysgol yn rhoi cymorth da iawn i bob disgybl. Mae strategaethau ymyrraeth da iawn i blant y mae angen cymorth penodol arnynt. Gwna'r ysgol ddefnydd effeithiol iawn o asiantaethau allanol, ac o'r staff sydd â chymwysterau ychwanegol y mae'n eu cyflogi.

Mae'r ysgol yn darparu cymorth ac arweiniad cynlluniedig a thargedig ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Caiff eu cynnydd ei asesu'n rheolaidd, a defnyddir gwybodaeth i ddarparu ymyrraeth ychwanegol pan fydd angen. Caiff y cymorth ar gyfer y disgyblion hyn ei reoli'n effeithiol iawn a'i gydlynu'n effeithlon.

Mae'r ysgol yn darparu cymorth cryf ac eithriadol o dda ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus. Caiff hyn ei gydnabod gan yr awdurdod lleol a'i rannu ag ysgolion eraill. Cynhelir gweithgareddau cyfoethogi mewn dosbarthiadau, sy'n rhan reolaidd o'r amserlen. Caiff cynnydd y disgyblion hyn ei olrhain yn gadarn iawn, ac mae athrawon yn gosod targedau heriol iawn.

Mae'r ysgol yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o iechyd a lles yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae disgyblion yn teimlo eu bod yn ddiogel ac yn saff, yn cael gofal da.

Mae gan yr ysgol bolisi priodol a gweithdrefnau ar gyfer diogelu.

Mae darpariaeth ragorol ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol pob disgybl. Mae ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer datblygiad cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn yr ysgol a'r tu allan yn dda iawn. Mae gwasanaethau'n cynnig cyfleoedd wedi'u cynllunio'n dda iawn i fyfyrio ac i brofi elfennau ysbrydol bywyd. Ceir darpariaeth dda iawn i ddisgyblion ddod yn ymwybodol o'r gwahanol ffyrdd niferus o fyw mewn cymdeithas fodern. Mae'r cyfleoedd i ddisgyblion ddathlu eu lle yn y byd yn gryf iawn. Cynhelir trafodaethau rheolaidd mewn dosbarthiadau i drafod cyfyngderau a materion moesol cyfoes.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn llwyddo i weithredu fel cymuned gynhwysol iawn lle mae pawb yn cael y parch mwyaf. Rhoddir pwyslais clir ar gydnabod a dathlu amrywiaeth. Mae staff wedi ymweld ag Affrica ar gyfer rhaglen addysg. Mae ymwelwyr o Affrica, Seland Newydd a De America wedi arwain gwasanaethau i hyrwyddo gwahaniaethau diwylliannol, dealltwriaeth a goddefgarwch. Caiff gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion eu gwella ymhellach trwy waith yr ysgol i godi arian a chefnogi cartref plant amddifad yn Affrica. Mae'r côr yn cefnogi prosiectau cymunedol, digwyddiadau i godi arian at elusennau a dathliadau, ac yn ymuno ag Ysgol Uwchradd Penarlâg ar gyfer nifer o brosiectau ar y cyd.

Caiff cyfle cyfartal ei hyrwyddo'n dda ac mae staff yn annog disgyblion i herio a dathlu gwahaniaethau. Mae'r ysgol yn atgoffa disgyblion yn rheolaidd am bwysigrwydd parchu a bod yn ystyriol o'i gilydd mewn gwasanaethau a thrafodaethau. Mae polisïau a gweithdrefnau trylwyr ar waith i ddelio â'r achosion prin iawn o ymddygiad annerbyniol.

Mae digon o adnoddau o ansawdd da sy'n cael eu gweddu'n briodol i anghenion disgyblion. Mae'r mannau tu allan yn cael eu datblygu'n barhaus i ddarparu adnoddau dysgu dychmygus a gwerthfawr ar gyfer disgyblion. Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer disgyblion ag anableddau yn dda ac yn gefnogol. Mae ansawdd yr adeiladau'n dda, ac fe gânt eu cynnal yn dda.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Caiff yr ysgol ei harwain yn dda. Mae'r pennaeth yn gweithio'n agos gyda'r dirprwy bennaeth a'r uwch dîm rheoli, ac mae wedi cyflawni llawer ers yr arolygiad diwethaf i

ddatblygu meysydd allweddol o’r ysgol. Mae’r ffordd y mae’r ysgol yn awr yn dadansoddi perfformiad disgyblion ac yn cymryd camau i sicrhau bod pob disgybl yn gwneud cynnydd da yn gryfder arbennig.

Mae pob un o’r staff yn gweithio gyda’i gilydd mewn modd cydlynol ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ohonynt eu hunain ac o’i gilydd. Maent yn rhannu eu harbenigedd yn rhwydd ac yn cynllunio gyda’i gilydd yn agos er mwyn rhoi mentrau newydd ar waith.

Mae gan lywodraethwyr ystod eang o arbenigedd perthnasol, ac maent wedi ymrwymo i’r ysgol. Maent yn wybodus iawn. Mae’r cadeirydd yn arwain mewn modd cadarnhaol iawn ac mae’n gweithio’n agos gyda’r pennaeth. Mae’r cysylltiadau gydag arweinwyr pwnc yn ddatblygedig, ac o ganlyniad, mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth dda o’r llwyddiannau a’r meysydd i’w datblygu yn yr ysgol. Maent yn gweithredu’n llwyddiannus fel ffrind cefnogol sydd hefyd yn feirniadol.

Mae’r ysgol yn gwneud cynnydd da o ran mynd i’r afael â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae’n gweithio’n agos gydag ysgolion eraill i gytuno ar safonau a rhannu arbenigedd. Cafwyd cryn lwyddiant yn cryfhau medrau Cymraeg disgyblion ac yn pwysleisio a datblygu dealltwriaeth disgyblion o faterion amgylcheddol a byd-eang.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr ysgol broses hunanarfarnu effeithiol, sy’n cynnwys athrawon, staff cymorth, llywodraethwyr, rhieni a disgyblion. Mae cynllun gwella’r ysgol yn blaenoriaethu’r materion allweddol sy’n codi o’r broses hunanarfarnu fel y prif faes i’w ddatblygu. Mae’n cynnwys deilliannau manwl gywir, bwriadol sy’n canolbwyntio ar godi safonau a gwella darpariaeth. Mae hyn yn galluogi’r ysgol i olrhain cynnydd yn rheolaidd ac yn effeithiol.

Mae’r uwch dîm rheoli yn gwneud defnydd priodol o ddata perfformiad i fonitro cynnydd a chynllunio ar gyfer gwella. Caiff gweithgareddau monitro eraill fel craffu ar lyfrau eu defnyddio’n rheolaidd i lywio’r barnau hyn ymhellach ac ychwanegu trylwyredd at y broses. Mae’r holl drefniadau ar gyfer datblygiad proffesiynol staff wedi’u cysylltu’n uniongyrchol â chynllun gwella’r ysgol.

Mae’r athrawon yn perthyn i nifer o rwydweithiau o arfer broffesiynol yn yr ysgol ac yn ehangach gydag athrawon o ysgolion eraill yn y clwstwr. Mae diwylliant o rannu arfer dda ymhlith y staff, gan ddefnyddio hyfforddi athrawon yn effeithiol. Mae ffocws yr holl rwydweithiau proffesiynol hyn yn cysylltu’n uniongyrchol â chynllun gwella’r ysgol a’i flaenoriaethau.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae’r ysgol wedi meithrin ystod eang o bartneriaethau strategol yn llwyddiannus, sy’n cyfrannu’n sylweddol at wella ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion.

Mae cysylltiadau agos gyda rhieni a’r gymuned leol hefyd, sy’n cael effaith gadarnhaol ar ansawdd yr addysg. Caiff yr ysgol ei chefnogi’n dda gan gysylltiadau effeithiol gyda’r awdurdod lleol. Caiff dealltwriaeth disgyblion o ddiwylliannau eraill ei hyrwyddo’n dda trwy gysylltiadau rhyngwladol parhaus a gweithgar ac astudio gwledydd eraill.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau effeithiol iawn gydag ysgolion eraill lleol i gytuno ar y safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni pan fyddant yn saith ac yn un ar ddeg oed. Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gyda'r ysgol uwchradd leol ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu haddysg. Mae cynllunio a rhannu adnoddau ar y cyd â sawl ysgol leol, er enghraifft, i gefnogi'r rhai yr ystyrir eu bod yn fwy abl a dawnus, yn gryfder.

**Rheoli adnoddau: Da**

Caiff adnoddau ariannol eu rheoli'n dda a'u defnyddio'n effeithiol i fodloni blaenoriaethau yng nghynllun gwella'r ysgol. Mae gan bob un o'r athrawon wybodaeth ac arbenigedd da i addysgu'r cwricwlwm yn effeithiol. Mae hyn yn cyfrannu at ddatblygu profiadau dysgu disgyblion yn llwyddiannus. Gwna athrawon ddefnydd da iawn o amser cynllunio, paratoi ac asesu, ac fe gedwir at ofynion statudol. Gwneir defnydd rhagorol o adnoddau a rennir trwy waith partneriaeth y clwstwr, ac mae hyn o fudd i ddisgyblion. Mae cynllun adnoddau cyllideb yr ysgol wedi'i gysylltu'n ofalus â chynllun gwella'r ysgol. Mae swyddog cyllid yr awdurdod lleol yn cyfarfod â llywodraethwyr bob tymor, a'r pennaeth bob hanner tymor, i drafod trefniadau cyllidebol. Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn adolygu'r blaenoriaethau hyn yn rheolaidd.

Mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian o ran barnu deilliannau disgyblion yn erbyn adnoddau ariannol yr ysgol.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Gan ddechrau o sylfaen sy'n aml uwchlaw'r cyfartaledd, mae canlyniadau plant saith oed yn yr asesiadau athrawon cenedlaethol wedi amrywio yn y pedair blynedd diwethaf. O gymharu â'r teulu o ysgolion, mae canlyniadau plant saith oed wedi gwella ac mae'n agos at gyfartaledd y teulu ar y lefel ddisgwyliedig mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth a phan gaiff y pynciau hyn eu cyfuno. Mae canlyniadau ar y lefel uwch mewn Saesneg wedi gwella o fod islaw'r rhan fwyaf o'r teulu i fod yr un fath â'r rhan fwyaf o'r ysgolion hyn bellach. Mae canlyniadau ar y lefel uwch mewn mathemateg a gwyddoniaeth yn uwch. O gymharu ag ysgolion y mae gan gyfran debyg o'u disgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim, mae'r canlyniadau'n uwch na 50% o'r ysgolion hyn.

Nid oes gwahaniaeth sylweddol ym mherfformiad bechgyn a merched yn saith oed ar y cyfan, er bod merched yn perfformio'n well na bechgyn mewn Saesneg yn saith oed. Mae'r rhai nad oes ganddynt hawl i gael prydau ysgol am ddim yn cyflawni'n uwch na'r rhai sydd yn eu cael.

Mae data'r ysgol yn dangos bod disgyblion yn gwneud cynnydd da o leiaf, a bod llawer ohonynt yn rhagori ar yr hyn sy'n ddisgwyliedig ohonynt ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Adlewyrchir hyn yn y samplau gwaith a welwyd ac yn y gwersi a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Yn y pedair blynedd diwethaf, mae'r canlyniadau ar y lefel ddisgwyliedig yn yr asesiadau athrawon cenedlaethol i blant un ar ddeg oed wedi bod yn agos at y rhan fwyaf o ysgolion yn y teulu. Mae canlyniadau ar y lefel uwch wedi codi'n gyflym mewn Saesneg, ac maent bellach yn agos at gyfartaledd y teulu, heblaw mewn ysgrifennu, lle mae'r canlyniadau ychydig yn is. Mewn mathemateg a gwyddoniaeth, mae canlyniadau ar y lefel ddisgwyliedig yn agos at gyfartaledd y teulu. Ar y lefel uwch, mae canlyniadau mewn mathemateg uwchlaw'r teulu. Maent yn debyg i ganlyniadau'r teulu mewn gwyddoniaeth.

O gymharu ag ysgolion y mae cyfran eu prydau ysgol am ddim yn debyg, mae perfformiad yr ysgol yn y 50% uchaf o blith yr ysgolion hyn.

Mae canlyniadau cyffredinol wedi bod uwchlaw cyfartaleddau lleol a chenedlaethol. Mae'r safonau a arsylwyd yng nghyfnod allweddol 2 mewn dosbarthiadau a thrwy graffu ar waith disgyblion yn cadarnhau'r data.

Yn yr asesiadau hyn, mae merched wedi perfformio'n well na bechgyn dros gyfnod, yn enwedig mewn ysgrifennu. Yn yr asesiadau hyn, nid yw'r rhai yr ystyrir bod ganddynt hawl i gael prydau ysgol am ddim yn perfformio cystal â'r rhai nad oes ganddynt hawl i'w cael.

Mae data'r ysgol yn dangos bod bron pob un o'r disgyblion un ar ddeg oed, yn cynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn cyflawni'n unol â'r rhagfynegiadau a wnaed ar eu cyfer yn saith oed, o leiaf.

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i rieni

Llenwodd pum deg pump o rieni'r holiadur.  Roedd safbwyntiau pob un o'r rhieni am yr ysgol yn gadarnhaol, heblaw ambell un.

Roedd pob un ohonynt yn fodlon gyda'r ysgol, yn credu bod eu plant wedi cael cymorth i ymgynefino wrth ddechrau yn yr ysgol, a bod gan staff ddisgwyliadau uchel o'r hyn y gallai eu plant ei gyflawni.

Roedd pob un ohonynt yn credu bod y staff yn trin eu plant yn dda ac yn eu helpu i aeddfedu a chymryd cyfrifoldebau.  Roeddent i gyd yn credu bod yr ysgol yn darparu ystod dda o weithgareddau, gwibdeithiau ac ymweliadau a'i bod yn cael ei rhedeg yn dda.

Dywedodd bron pob un ohonynt fod eu plant yn hoffi'r ysgol, eu bod yn gwneud cynnydd da ac yn ymddwyn yn dda.  Roedd bron pob un ohonynt yn credu bod yr addysgu'n dda, bod y gwaith cartref yn fuddiol a bod eu plant yn cael eu hannog i fod yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd.  Roeddent yn teimlo bod eu plant yn ddiogel yn yr ysgol, eu bod yn cael gwybodaeth dda am gynnydd eu plant ac yn teimlo'n gyfforddus ynglŷn â mynd at yr ysgol.  Roedd bron pob un ohonynt yn credu bod eu plant yn cael eu paratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r cyfnod nesaf yn eu haddysg.

Roedd y rhan fwyaf o rieni'n credu bod eu plant yn cael cymorth priodol ac yn deall gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer delio â chwynion.

### Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr

Llenwyd yr holiadur gan chwe deg un o ddisgyblion.  Roedd pob un ohonynt yn credu eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol.  Roedd bron pob un ohonynt yn teimlo'n ddiogel, yn gwybod gyda phwy i siarad os oeddent yn poeni neu'n gofidio, ac yn teimlo eu bod yn cael eu haddysgu ynglŷn â sut i gadw'n iach ac yn cael llawer o gyfleoedd i wneud ymarfer corff yn rheolaidd.

Roedd bron pob un ohonynt yn credu bod yr athrawon ac oedolion eraill yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd.  Roeddent yn gwybod beth i'w wneud a phwy i ofyn os oeddent yn gweld eu gwaith yn anodd.  Roedd bron pob un ohonynt yn credu bod ganddynt ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud eu gwaith.

Roedd llawer ohonynt yn credu bod yr ysgol yn delio â bwlio'n effeithiol a bod gwaith cartref yn fuddiol.  Roedd bron pob un ohonynt yn credu bod plant yn ymddwyn yn dda amser egwyl ac amser cinio.  Fodd bynnag, roedd tua hanner ohonynt yn pryderu ynglŷn â'r ffaith fod ymddygiad plant eraill yn tarfu ar eu gwaith eu hunain.  Mae'r ffigur hwn ymhell uwchlaw'r hyn a welir fel arfer.  Fodd bynnag, mewn trafodaethau gyda disgyblion, ac o arsylwi mewn gwersi ac o amgylch yr ysgol, canfuwyd bod ymddygiad disgyblion yn dda iawn.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Peter Mathias | Arolygydd Cofnodol |
| Collet Gribble | Arolygydd Tîm |
| Lowri Evans | Arolygydd Tîm |
| Peter Haworth | Arolygydd Lleyg |
| Owen Rogers | Arolygydd Cymheiriaid |
| Ruth Dyas (Pennaeth) | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol.  Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed.  Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.  Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati.  Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | CSD | CSB1 | CSB2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

### Cwricwlwm Cenedlaethol

### Lefelau disgwyliedig y Cwricwlwm Cenedlaethol

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.

### Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol.  Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion.  Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.